

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWYD YN Y NEUADD
GYMUNEDOL NOS LUN, Y 5ED O RAGFYR 2022 AM 19.00 O'R GLOCH

<u>PRESENNOL</u>	<u>CADEIRYDD</u>	H HUGHES
		R DALTON
		A HUGHES
		A J MORRIS
		N SALMON
		C BAINBRIDGE
		M GRIFFITHS
YN BRESENNOL	<u>CLERC</u>	I RAILTON
		4 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU

178. Y Cynghorydd Jones, y Cynghorydd Williams a'r Cynghorydd Pryce Jones. Cyrhaeddodd y Cynghorydd Thomas am 19.17.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

179. Ni chafwyd dim sylwadau gan y cyhoedd.

DATGAN BUDDIANNAU

180. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

181. Cyfarfod mis Hydref

Sylwadau a ddaeth i law; Cofnod 160: trafododd y Cynghorydd Morris a Chynghorwyr eraill bwysigrwydd creu cyfeirlyfr sy'n dweud pwy sydd i fod i gyflawni pa dasgau, e.e. y Goleuadau Nadolig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd y Clerc fod hyn eisoes yn digwydd. Cofnod 162: tarian goffa. Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge i'r Clerc holi'r preswilydd ynglŷn â'i benderfyniad. Cofnod 173: gofynnodd y Cynghorydd A Hughes i'r cofnodion gael eu newid a'u bod yn darllen fel a ganlyn: '...y bydd Grŵp 2030 yn cysylltu â'r grŵp hyfforddi cylchol' yn hytrach na 'mae Grŵp 2030 wedi cysylltu â'r grŵp hyfforddi cylchol'.

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a gynhaliwyd ar y 7fed o'r mis. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Thomas a'r eilydd oedd y Cynghorydd Dalton. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid hyn.

MATERION YN CODI

182. Dangosodd y Clerc y daenlen gynllunio ar gyfer y gyllideb nesaf. Atgoffodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Hughes, y Cynghorwyr y bydd y gyllideb yn cael ei thrafod yng nghyfarfod mis Ionawr ac y dylai unrhyw syniadau am y gyllideb gael eu hanfon at y Clerc.

183. Mae'r anfoneb am dorch Sul y Cofio bellach wedi dod i law ond nid yw'r siec am £8000 wedi ei rhoi i Hilary eto am fod y Cyngor yn dal i aros am gyfeiriad (bydd rhywun yn mynd â'r siec ati'n syth ar ôl y cyfarfod). Hefyd, mae'r Cyngor yn dal i aros am anfoneb am y gwaith ar y rhoden fellt a'r goleuadau Nadolig.

GOHEBIAETH

184. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen gweithredu arni oddi wrth Hwb Cymunedol y Borth.

185. Mae'r praesept oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i fod i gyrraedd y cyfrif ar 31/10/2022. Y swm fydd £6556.

186. E-bost ynglŷn â Mainc/Tarian Goffa. Cadarnhaodd y Cynghorydd Bainbridge y byddai'r ysgol yn hoffi cymryd rhan. Anfonwyd e-bost at y preswylydd ond nid oes ateb wedi dod i law hyd yma. Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge i'r Cyngor holi ynglŷn â'r mater hwn.

CYFRIFON

187. <u>Gweddill y Cyfrifon ar y 13eg o Dachwedd 2022</u>	
Nationwide	£25,312.45 (ni ddaeth datganiad i law)
Cyfrif Banc Elusennol	£17,327.86
Cyfrif Busnes Dim Rhybudd	£7,451.30
Cyfrif Adnau	£3,830.90

188. <u>INCWM</u>	£6,556.00
--------------------------	-----------

189. Gwariant - Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd Bainbridge. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Ffioedd y Cyfrif Banc Elusennol	£8.20
I Railton – Cyflog mis Tachwedd	£663.65
Heledd Davies – cyfieithu cofnodion mis Tachwedd	£127.75
M E Campbell – Coeden Nadolig	£235.00
Robert Griffiths - Tymor Garddio 2022	£1872.00

(awdurdodwyd rhwng y cyfarfodydd, gweler Cofnod 164 cyfarfod mis Tachwedd. Penderfynwyd talu ag un siec, fel y digwyddodd o'r blaen).	
Roy Jones - Torchau	£90

190. Mae'r Clerc a'r llofnodwyr wrthi'n gwneud cais i fancio ar-lein â banc yr HSBC.

CYNLLUNIO

A220838

Lleoliad: Ynys Wen, Stryd Fawr, y Borth, SY24 5JD

Cynnig: Cais ôl-weithredol i godi estyniad ochr un llawr i'w ddefnyddio fel storfa.

Sylwodd y Cynghorydd Morris fod yr estyniad hwn wedi bod ar waith ers o leiaf 3 blynedd. Credir bod yr annedd yn sefyll ar hawl tramwy presennol, neu nesaf ati, ac nad yw hyn wedi'i adlewyrchu yn adran 5 o Ffurflen Gais Deiliad y Tŷ. Cyn y cyfarfod, anfonodd y Clerc e-bost at y tîm cynllunio. Daeth ateb i law oddi wrth y tîm i ddweud yr ymgynghorwyd â'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus ynglŷn â'r cais ond nad oedd y tîm wedi ymateb eto. Pwysleisiodd y Cynghorydd Morris bwysigrwydd hawliau tramwy cyhoeddus ac, ymhlith rhesymau eraill, soniodd am yr angen am fynediad i'r traeth pe bai argyfwng. Nid yw'r hawl tramwy wedi'i rhwystro ond mae pryder ynghylch y ffaith nad yw wedi'i nodi. Bydd y neges hon yn cael ei chyfleu unwaith eto yn ymateb y Cyngor i'r tîm cynllunio.

A220854

Lleoliad: Brynhyfryd, Ynyslas, y Borth. SY24 5JX

Cynnig: Estyniad arfaethedig i annedd, sy'n cynnwys dymchwel garej a heulfannau

Dim gwrthwynebiad

A220841

Lleoliad: Belle Vue, Ffordd Clarach, y Borth. SY24 5LP Cynnig: Y bwriad i ddymchwel yr annedd a'r garej/siop bresennol a'u disodli gydag annedd a gweithdy newydd.

Roedd y Cynghorydd Jones wedi ateb drwy e-bost i fynegi pryderon y gallai'r gair 'swyddfa' gael ei newid i 'ystafell wely' yn y cais cynllunio ond, fel arall, ni oedd ganddo'r un gwrthwynebiad. Dywedodd y Cynghorydd Morris yr edmygai'r adeilad a fu, ond ategodd ei fod bellach yn edrych yn ddi-raen a bod hynny'n ei dristau. Dim gwrthwynebiad i'r bwriad i ddymchwel yr adeilad. Dim gwrthwynebiad.

A220876

Lleoliad: Tir i'r de o Wigwam, Ynyslas, y Borth, SY24 5JX Cynnig: Amrywio/dileu amodau 10, 11, 12, 13, 14, 18 a 19 caniatâd cynllunio A220366 - (Mynediad/lleiniau gweledd/ymyl).

Dim gwrthwynebiad.

AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

191. Rhoddodd y Cynghorydd H Hughes ddiweddariad ynglŷn â'r materion y mae'n dal i ymchwilio iddynt yn rhinwedd ei waith fel Cynghorydd Sir. Y cam nesaf fydd codi'r materion hyn gydag Elin Jones. Mae'n anfon llythyr â rhai o'r straeon a gyhoeddwyd mewn erthygl yn y Cambrian News a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Gam 3. Bydd hyn eitem sefydlog ar yr agenda. Mae'r Cynghorydd Salmon wedi cael ateb oddi wrth Annette ac mae wedi anfon e-bost arall ati, ond nid oes ateb wedi dod i law hyd yma.

Cysylltodd preswylwyr â'r Cynghorydd Bainbridge i ddweud eu bod yn poeni am ddiogelwch, y cwmp ym mhrisiau tai a'r ffaith bod cost eu polisïau yswiriant yn cynyddu.

Yna, trafodwyd pa mor ddoeth oedd siarad â gohebwy. Gofynnodd y Cynghorydd Salmon i'r Cyngor a fyddai gan rywun wrthwynebiad petai'n siarad â gohebydd gan y gofynnwyd iddi wneud sylwadau ynglŷn â'r mater. Fodd bynnag, cytunwyd bod angen bod yn ofalus wrth gyfathrebu.

Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd, y Cynghorydd H Hughes, a dywedodd nad oedd ateb wedi dod i law ers 12 mis. Dywedwyd eto nad oedd dim ateb wedi dod i law oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cam 3 yn dal i fod yn broblem fawr.

Yn ôl y Cynghorydd Griffiths, bu'n rhaid i breswylwyr lleol fynd allan i ysgubo'r cerrig a ddaeth dros yr amddiffynfa.

Ar ôl hyn, trafodwyd yr angen i rywbeth gael ei wneud ar fyrder. Yn ystod y drafodaeth dywedwyd bod Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn amharchus iawn a bod y preswylwyr wedi'u trin yn wael.

Cynigiodd y Cynghorydd Bainbridge gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion drwy llythyr i fynegi pryder gwirioneddol, a chynhigiodd gopïo rhai unigolion allweddol i geisio bwrw 'mlaen â'r mater hwn. Bydd Cyngor Cymuned y Borth yn ysgrifennu llythyr. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Thomas. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Cododd y Clerc bryderon nad oedd ganddi'r wybodaeth angenrheidiol i lunio llythyr mor bwysig gan ei bod yn newydd i'r swydd. Cynigiodd y Cynghorydd Dalton ysgrifennu'r llythyr a bydd y Clerc yn ei anfon ar ran Cyngor Cymuned y Borth.

Y WAL GYFERBYN Â SIOP PREMIER

192. Daeth e-bost oddi wrth gyfreithwyr Cyngor Sir Ceredigion drwy law Huw Bates a ddywedai mai'r gost arfaethedig fyddai £3000. Rhannwyd hyn ag aelodau'r Cyngor cyn y cyfarfod.

Mewn trafodaeth, holwyd a fyddai modd rhannu'r gost hon.

Roedd y Cynghorydd Morris yn awyddus i atgoffa'r Cynghorwyr am gost disodli'r meini copa yn y gorffennol.

Siaradodd y Cynghorydd H Hughes yn gyflym â Nigel Humphries a lofnododd y cais cynllunio ar gyfer y wal ac mae'n eithaf sicr nad oedden nhw'n berchen ar y wal bryd hynny. Mae'n dweud ei

bod yn bosib bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Ionawr 1982 ar gael sy'n nodi bod y cadeirydd ar y pryd, Tom Raw Rees, yn bwriadu trafod gwaith cynnal a chadw.

Dywedodd aelod o'r cyhoedd mai ffens a argymhellwyd yn gyfreithiol, a bod angen i'r Cyngor ystyried faint y dylai ei wario gan nad yw'n berchen ar y tir yn gyfreithiol.

Trafodwyd y mater ymhlith y Cynghorwyr gan y bu'r mater hwn yn destun dadl yn y gorffennol. Gofynnodd y Cynghorydd A Hughes am eglurhad gan Huw Bates ynglŷn â sefyllfa gyfreithiol y Cyngor petai'n cytuno i'r gwaith.

Nododd y Cynghorydd Salmon fod y cyngor cyfreithiol yn arbennig o besimistaidd a gofalus, a bod y syniad o osod ffens yn gwneud pethau'n fwy peryglus fyth.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael rhywun lleol i wneud y gwaith ond crybwyllwyd y gallai'r gost hon fod yn deg wedi'r cyfan. Os bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflawni'r gwaith, eu cyfrifoldeb nhw fyddai cynnal a chadw'r wal i safon dderbyniol.

Nodwyd y dylai'r Clerc gysylltu â Huw Bates i ofyn a fyddai Cyngor Sir Ceredigion yn fodlon rhannu'r costau. Mae'n amlwg hefyd bod Cyngor Cymuned y Borth yn cymryd camau rhesymol i wneud y penderfyniad cywir er mwyn diogelu'r cyhoedd a cheisio cadw costau mewn cof ar yr un pryd.

Os daw Huw Bates yn ôl at y Cyngor â ffigwr, ac os mai'r penderfyniad fydd rhannu'r gost, cynhigiodd y Cynghorydd Bainbridge y gallai Aelodau'r Cyngor gytuno ar hyn drwy e-bost yn hytrach nag aros tan y cyfarfod ym mis Ionawr. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dalton.

Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

GWEFAN Y CYNGOR A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

193. Dywedodd y Clerc fod y gwaith i greu gwefan newydd wedi cychwyn. Y parth www.yborthcc.llyw.cymru fydd gwefan newydd y Cyngor.

Mae'r gystadleuaeth i greu logo wedi'i hagor ond nid oes cynigion wedi dod i law eto. Dywedodd yr ysgol wrth y Cynghorydd Bainbridge nad oedd yn sylweddoli bod y gystadleuaeth yn agored i blant ysgol ac artistiaid amatur. Bydd y Clerc yn postio gwybodaeth am y gystadleuaeth eto ac yn nodi'r ffaith hon yn glir.

FANDALIAETH YN Y BORTH

Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd A Hughes am gyfarfod diweddaraf Yr Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT). Bu'r Cynghorwyr yn trafod y difrod yn y pentref i adeiladau amrywiol ac i wasanaethau cyhoeddus. Soniodd y Cynghorydd Salmon am ddigwyddiad gyda beic preswlydd lleol a'r difrod a wnaed i'r gerddi cymunedol. Pwysleisiodd unwaith eto bwysigrwydd sôn wrth yr heddlu am bob digwyddiad.

Bydd y Clerc yn rhoi neges ar y cyfryngau cymdeithasol i atgoffa trigolion i ffonio 999, 101 neu Taclo'r Taclau.

Y DIWEDDARAF YN SGIL CYFARFOD GRŴP IECHYD Y BORTH

194. Nid oedd y Cynghorydd Jones yn bresennol, felly ni chafwyd diweddariad.

MATERION Y CADEIRYDD

195. Mae'r Cynghorydd H Hughes yn parhau i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â'r amddiffynfa fôr. Mae baner Wcraïn wedi cyrraedd ac mae wedi ei hychwanegu at y prom.

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR

196. Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Dalton am y maes parcio. Dywedwyd yr aeth y Cynghorydd Dalton ati i glirio llawer o wydr a oedd wedi malu yn y maes parcio mawr gyferbyn â siop Nisa. Ychwanegodd nad oedd y banc poteli wedi'i wacau. Atgoffodd y Cynghorydd Dalton bawb bod rhif ffôn ar ochr y banc poteli. Os ydych yn deialu'r rhif, daw cyflenwr allan i'w wacau. Mae tipio anghyfreithlon yn broblem ac mae'r biniau'n llenwi'n gyflym iawn. Bydd y Clerc yn diweddarau'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol â'r manylion ac yn annog trigolion i gysylltu os ydynt yn gweld bod y biniau'n llawn. Dywedodd y Cynghorydd Griffiths fod rhywun yn ddiweddar wedi torri bysellbad toiledau'r eglwys a adnewyddwyd yn ddiweddar. Gofynnwyd hefyd i'r Cyngor anfon cardiau at Rhian Evans a Margaret Walker. Bydd y Clerc yn gwneud hyn. Gofynnodd y Cynghorydd A Hughes a fyddai rhywun yn hoffi cymryd rhan yn y gwiriadau cyflymder. Bydd arwydd y parc cychod hefyd yn cael ei gosod yn fuan. Rhoddodd y Cynghorydd Bainbridge ddiweddariad ar Gorff Llais y Dinesydd. Cynhelir cyfarfod ddydd Mercher hefyd i drafod y carnifal. Cododd y Cynghorydd Thomas bryderon am adar marw yn y pentref a'r ymdrechion i geisio'u casglu. Dywedodd y Cynghorydd Salmon y cafwyd sesiynau casglu sbwriel buddiol. Mae'r Cyngor yn parhau i ymchwilio i fflapiau gwylanod/biniau newydd nad yw gwylanod yn gallu'u difrodi. Mae'r Cyngor hefyd yn ymchwilio i raciau beiciau a ble y gellir eu lleoli. Awgrymwyd y dylid ymchwilio i ennill statws 'pentref di-blastig' y flwyddyn nesaf.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

197. Mae Sean Bethal o Gyngor Sir Ceredigion, sy'n rheoli'r toiled cyhoeddus, yn obeithiol y bydd yn cael ei drwsio cyn gynted â phosib. Mae'r toiledau wrth ymyl yr RNLI i fod i gael eu huwchraddio. Mae'r gasgen ddŵr wedi cael ei chymeradwyo mewn egwyddor. Fodd bynnag, bydd yn rhaid aros i'r broblem fandaliaeth gael ei datrys yn gyntaf. Bwriedir cynnal cyfarfod â Thaclo'r Taclau. Bwriedir cynnal cyfarfod â Gofal a Thrwsio, sy'n helpu pobl i aros yn eu cartrefi.

Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA

198. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 21.30pm. .

Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf ar y 9fed o Ionawr 2023 fydd y Diweddaraf ar Siop Premier, yr Amddiffynfa Fôr a Llifogydd, y Diweddaraf ar y Wefan a'r Diweddaraf ar Fwrdd Iechyd y Borth.

Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu unrhyw eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Clerc yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.